PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 4

# *Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig*

## Llawlyfr Gwaith

International Politics / Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# LLAWLYFR GWAITH


## CWESTIWN 1

Beth yw ystyr y term 'dadymochri pleidiol'?

## CWESTIWN 2

**Deall natur maint y bleidlais mewn etholiadau yng Nghymru**

i: Edrychwch ar y tabl isod. Nodwch beth yw'r gwahaniaeth a welwch o ran y nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau i San Steffan ac i'r Cynulliad Cenedlaethol?



**TABL MAINT Y BLEIDLAIS MEWN ETHOLIADAU YNG NGHYMRU 1997-2017**

| **CANRAN BLEIDLEISIO (*TURNOUT*)** | |
|---|---|
| Etholiad Cyffredinol 1997, Cymru | 73.5% |
| Etholiad Cyffredinol 2001, Cymru | 61.6% |
| Etholiad Cyffredinol 2005, Cymru | 62.4% |
| Etholiad Cyffredinol 2010, Cymru | 64.9% |
| Etholiad Cyffredinol 2015, Cymru | 65.6% |
| Etholiad Cyffredinol 2017, Cymru | 68.6% |
| Etholiad y Cynulliad 1999 | 46.3% |
| Etholiad y Cynulliad 2003 | 38.2% |
| Etholiad y Cynulliad 2007 | 43.4% |
| Etholiad y Cynulliad 2011 | 41.4% |
| Etholiad y Cynulliad 2016 | 45.3% |

(Ar gyfer etholiadau'r Cynulliad canlyniadau pleidlais etholaethol yn unig)

## CWESTIWN 3

Defnyddiwch y cwestiynau isod i gynnal arolwg yn y dosbarth o sut byddai pobl yn pleidleisio. Casglwch y data ynghyd a dadansoddwch y canlyniad. Beth welwch chi?

a: Pe bai etholiad Cyffredinol i Senedd San Steffan yn cael ei gynnal yfory, sut fyddech yn pleidleisio? (dewiswch flwch gyferbyn â'ch plaid)

| | |
|---|---|
| ☐ | Llafur |
| ☐ | Ceidwadwyr |
| ☐ | Plaid Cymru |
| ☐ | Democratiaid Rhyddfrydol |
| ☐ | Plaid arall, nodwch pwy: |
| ☐ | Ni fuaswn yn pleidleisio |

b: Pe bai etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gynnal yfory, sut fyddech yn pleidleisio? (dewiswch flwch gyferbyn â'ch plaid)

| | |
|---|---|
| ☐ | Llafur |
| ☐ | Ceidwadwyr |
| ☐ | Plaid Cymru |
| ☐ | Democratiaid Rhyddfrydol |
| ☐ | Plaid arall, nodwch pwy: |
| ☐ | Ni fuaswn yn pleidleisio |

## CWESTIWN 4

### Deall patrymau pleidleisio mewn Etholiadau yng Nghymru

Edrychwch ar ddata canlyniadau etholiadau cyffredinol ac i'r Cynulliad Cenedlaethol 1997-2017 ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**ETHOLIAD CYFFREDINOL 1997, CYMRU**

| PLAID | % PLEIDLAIS | SEDDI |
|---|---|---|
| Llafur | 54.8 | 34 |
| Ceidwadwyr | 19.5 | 0 |
| Dem Rhydd | 12.3 | 2 |
| Plaid Cymru | 10.0 | 4 |

**ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL 1999**

| PLAID | ETHOLAETH % | NIFER | RHESTR % | NIFER | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | 37.6 | 27 | 35.5 | 1 | 28 |
| Ceidwadwyr | 15.8 | 1 | 16.5 | 8 | 9 |
| Dem Rhydd | 13.5 | 3 | 12.5 | 3 | 6 |
| Plaid Cymru | 28.4 | 9 | 30.6 | 8 | 17 |
| Arall | 4.7 | 0 | 4.9 | 0 | 0 |

**ETHOLIAD CYFFREDINOL 2001, CYMRU**

| PLAID | % PLEIDLAIS | SEDDI |
|---|---|---|
| Llafur | 46.8 | 34 |
| Ceidwadwyr | 21.0 | 0 |
| Dem Rhydd | 13.8 | 2 |
| Plaid Cymru | 14.3 | 4 |

**ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL 2003**

| PLAID | ETHOLAETH % | NIFER | RHESTR % | NIFER | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | 40.0 | 30 | 36.6 | 0 | 30 |
| Ceidwadwyr | 19.9 | 1 | 19.2 | 10 | 11 |
| Dem Rhydd | 14.1 | 3 | 12.7 | 3 | 6 |
| Plaid Cymru | 21.2 | 5 | 19.7 | 7 | 12 |
| Arall | 4.7 | 1 | 11.9 | 0 | 1 |

**ETHOLIAD CYFFREDINOL 2005, CYMRU**

| PLAID | % PLEIDLAIS | SEDDI |
|---|---|---|
| Llafur | 42.7 | 29 |
| Ceidwadwyr | 21.4 | 3 |
| Dem Rhydd | 18.4 | 4 |
| Plaid Cymru | 12.6 | 3 |

### ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL 2007

| PLAID | ETHOLAETH % | NIFER | RHESTR % | NIFER | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | 32.2 | 24 | 29.6 | 2 | 26 |
| Ceidwadwyr | 22.4 | 5 | 21.5 | 7 | 12 |
| Dem Rhydd | 14.8 | 3 | 11.7 | 3 | 6 |
| Plaid Cymru | 22.4 | 7 | 21.0 | 8 | 15 |
| Arall | 8.2 | 0 | 16.3 | 0 | 0 |

### ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL 2011

| PLAID | ETHOLAETH % | NIFER | RHESTR % | NIFER | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | 42.3 | 28 | 36.9 | 2 | 30 |
| Ceidwadwyr | 25.0 | 6 | 22.5 | 8 | 14 |
| Dem Rhydd | 10.6 | 1 | 8.0 | 4 | 5 |
| Plaid Cymru | 19.3 | 5 | 17.9 | 6 | 11 |
| Arall | 2.8 | 0 | 14.7 | 0 | 0 |

### ETHOLIAD CYFFREDINOL 2015, CYMRU

| PLAID | % PLEIDLAIS | SEDDI |
|---|---|---|
| Llafur | 36.9 | 25 |
| Ceidwadwyr | 27.2 | 11 |
| Dem Rhydd | 6.5 | 1 |
| Plaid Cymru | 12.1 | 3 |
| UKIP | 13.6 | 0 |

### ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL 2016

| PLAID | ETHOLAETH % | NIFER | RHESTR % | NIFER | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | 34.7 | 27 | 31.5 | 2 | 29 |
| Ceidwadwyr | 21.1 | 6 | 18.8 | 5 | 11 |
| Dem Rhydd | 7.7 | 1 | 6.5 | 0 | 1 |
| Plaid Cymru | 20.5 | 6 | 20.8 | 6 | 12 |
| UKIP | 12.5 | 0 | 13.0 | 7 | 7 |

i. Edrychwch ar ganlyniadau etholiadau cyffredinol ac etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhestrwch 3 prif cymhariaeth sy'n tynnu eich sylw.

ii. Beth welwch chi wrth edrych ar ganlyniad pleidiau unigol rhwng y ddau fath o etholiad, e.e. a: Plaid Cymru a b: Ceidwadwyr, neu c: Llafur?

**CWESTIWN 5**
**Ymchwilio i esboniadau am ganlyniad etholiad unigol**

Dewiswch un o'r etholiadau uchod i'r Cynulliad. Ymchwiliwch i'r ffactorau a gynigir am y canlyniad.

i: Beth yw'r prif resymau a roddir am y canlyniad?

ii: I ba raddau mae'r canlyniad yn cyd-fynd â'r dulliau o esbonio etholiadau datganoledig yng Nghymru fel amlinellwyd yn y Wybodaeth Graidd?

iii: I ba raddau pwysleisir effaith ffactorau mwy tymor byr ar ymddygiad pleidleisio: e.e. natur yr ymgyrchoedd; ymgeiswyr; dylanwad y cyfryngau?

## CWESTIWN 6

Cysylltwch y termau â'r diffiniad cywir.

| | |
|---|---|
| 1– Pleidleisio aml-lefel | Barn etholwyr am gymhwysedd a pherfformiad pleidiau |
| 2 – Gwleidyddiaeth 'Falens' | Egluro maint is y bleidlais |
| 3 – Damcaniaethau Etholiadau ail radd | Lefel wahanol o gefnogaeth gan wahanol bleidiau mewn etholiadau ar haenau gwahanol o lywodraeth |

## CWESTIWN 7

Aseswch yn feirniadol beth yw'r dylanwadau mwyaf arwyddocaol ar ymddygiad pleidleisio yn y Deyrnas Unedig?

## CWESTIWN 8

Gan ddefnyddio enghreifftiau, gwerthuswch rai o'r prif ddehongliadau o ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru ers datganoli gwleidyddol yn 1999.